# Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 6ed Mis Mawrth 2024

**Presennol**
Cynghorwyr – E Davies (Cadeirydd), D Jones, F Cauley, B Jones, I Edwards, S Evans, R Ashton, G Davies, E Lewis a G Mitchell (Powys)

**Ymddiheuriadau** - P Jones

Cynnigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i bawb

**Cyflwyniadau –**

**Datganiadau diddordeb** – D Jones ynglyn a 11.

**Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 7fed Chwefror 2024**
Pawb yn gytun

**Materion yn codi**

1. Parcio ceir ym mhentref Llan - Cyflwynwyd dynfbris gan Tony Evans am gwaith paratoi'r tir a gosod y bainc am £2000.00 – angen rhagor o ystyriaeth. Yn y cyfamser cytynwyd i symud yr hen hysbysfwrdd o wal y siop yn Llanbrynmair i'r safle yn Llan.
2. Cais am llwybr seiclo o gwmpas y Cae Cymunedol - Mae'r sietyn wedi ei cwbwlhau gyda diolch i Terry Lambert, Hilary Reed, Elaine Turnbull, Wendy Davies, Fiona Cauley, Arwyn Morgan a Gareth a Josh Reast am ei waith caled, Dewiswyd tender gan Kevin Jones Landscapers o Fachynlleth i gwneud y gwaith torri gwair a llinellau gwyn. S Reast wedi ysgrifennu ar David Thompson (Powys) i ofyn am 'Right of Access' gan copio G Mitchell i fewn.
3. Cyfleusterau cyhoeddus - Mae Adam Toye wedi trwsio'r nenfwd yn toiledau'r dynion. Cafodd S Reast a I Edwards cyfarfod ar y safle i trafod y maint o ddwr sydd wedi cael ei golli. Cytynwyd i cadw toiledau'r dynion a'r merched ar gau tra fydd y problem yn parhau. Cynigwyd E Lewis defnyddio Severn Trent i osod teclyn ar y meter i mesur llif y dwr am cyfnod o amser. Cynigwyd defnydd o 'Portaloo' gan B Jones os fydd angen troi'r dwr i ffwrdd yn llwyr. S Reast wedi rhoi diweddariad i PHS i arbed arian ar prosesu gwastraf ac mae Hafren Dyfrdwy wedi rhoi'r cyfrif ar stop tra fydd ymholiadau ar y gweill. Mae Tony Evans wedi dweud ei fod yn dymuno rhoi ben i glanhau'r toiledau ar ôl diwedd mis Mawrth. S Reast i gwneud ymholiadau am rhywun arall i glanhau
4. Hysbysfyrdd - Mae hysbysfwrdd newydd Bont yn nawr yn ei le ac mae'r hen un wedi cael ei osod o dan dô yn lloches bws Llanbrynmair
5. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Mae angen pads newydd i'r difibrilwr yn Nhalerddig am £60 y par ac fydd angen offer newydd ym Mhennant
6. Ystyried offer newydd yn y Cae Chwarae - Mae'r offer newydd wedi ei archebu ond fydd yn cymryd 10 wythnos i'w paratoi cyn cyrraedd. Ni fydd angen talu amdano tan fydd y gwaith gosod wedi ei cwbwlhau. Cynigwyd Bran Dearling y gallith o tocio'r coeden ceirios sydd yn ymyryd ar lleoliad y 'Zip wire' am ddim
7. Sietyn wrth Pont Bel – Mae G Davies wedi cysylltu efo perchnogion Ty'n Ddol i trefnu'r gwaith
8. "Concealed entrance", Maes yr Efail – B Jones a R Ashton i helpu gosod postyn metal yn ei le ar gyfer drych – dim diweddariad

9. Station House, Talerddig – Roedd yna cyfarfod ar y 21ain o Chwefror gyda cynrichiolwyr Gwasanaethau Plant, S Reast, G Mitchell a P Jones. Mae yna ambell i fater sydd dal eisiau ei cwbwlhau ac fe disgwylir diweddariad eto cyn bo hir. Fydd y 2 plentyn cyntaf yna i fyw ymhen y mis nesaf
10. Biniau ar gwaelod ffordd Bryneinty – Cafwyd ymateb gan Rheolwr Ardal Gwastraff ac Ailgylchu yn cynnig cyfarfod ar y safle
11. Lloches Bws Dolfach – Mae trigolion gerllaw'r safle yn gwrthwynebu lleoliad y lloches. Cafwyd pleidlais i penderfynnu os oedd y Cyngor am cefnogi'r datblygiad fel y mae o: 7 yn cefnogi, 2 yn ymatal
12. Tocio'r shetyn a mieri yn Bont – Mae Josh Reast yn cael trafferth dod o hyd i amser sbar i gwneud y gwaith. Cynigwyd gwirfiddolwr arall o Bont sydd â'r offer perthnasol ac wedi cytuno i'w gwbwlhau
13. Bainc yn Dolfach –Cytynwyd gofyn i Tony Evans bwrw 'mlaen gyda'r gwaith am £300.00
14. Sied wedi torri yn y cae chwarae – Rhaid aros am tywydd sych i symud y sied – dim diweddariad
15. Llwybr o Dolfach i Llanbrynmair ac i troiad Tafolwern – Cytynwyd i drafod hyn pan ddaw Russel George AS i cwrdd a'r Cyngor. S Reast i ysgrifennu at David Selby a Diane Reynolds
16. Ffens o amgylch y Pump House yn Bont – S Reast wedi ysgrifennu at Dwr Cymru ac wedi cael cadarnhad fod y mater ar ei amserlen o waith
17. Problemau gyda'r Ganolfan Iechyd – S Reast wedi ysgrifennu atynt i cwyno am y problemau cyfathrebu gyda pobol mewn oed ac am prescripsiannau hwyr a'r anhawsterau cael apwyntiadau. Cafwyd ymateb gan Lucy Cockram (Practice Manager) yn gwahodd cynghorwyr i ymweld a'r Ganolfan Iechyd i trafod y materion ymhellach. E Davies a S Evans i fynychu
18. Dwr yn llifo wrth Pont Grîn – S Reast i adrodd at Powys
19. Baw cŵn – Ystyrwyd cynllunio a danfon taflenni i trigolion y pentref, gofyn i plant yr ysgol gwneud posteri a cael gair efo'r PCO
20. Openreach yn torri coed a gadael brigiau ar lawr – S Reast i gwenud ymholiadau
21. Diffyg gohebiaeth i cais cynllunio Hafodwen – S Reast i gwneud ymholiadau
22. Llwybr heibio Ysgoldy Talerddig angen giat – S Reast i adrodd i Powys
23. Aros dros nôs yn y maes parcio – S Reast i trefnu arwyddion

**Materion ffyrdd**

- Dŵr ar ffordd Pandy – G Mitchell i edrych i mewn iddo fo a cwrdd a R Ashton ar y safle
- Gridiau gwartheg rhwng Talerddig a Cwmcalch - wedi llenwi gyda mwd. Mae Gwaith ar y grid ger Belan ar y gweill
- Peipen o dan y ffordd wrth Ystradfawr – G Mitchel i edrych ar y mater
- Materion ar yr A470 – S Reast i wahodd Russel George AS i drafod y canlynol: 1. Ffordd yn disgyn wrth Dolgoch a'r effaith o cau hwnw ar y ffordd o Talerddig i Bont tra fydd gwaith ar y gweill. 2. Cyflymder traffig ar gornel Wynnstay. 3. Cyflymder traffig yn Nhalerddig. 4. Llwybr o Dolfach i Llanbrynmair ac ymlaen i Tafolwern

- Fuodd E Davies a G Mitchell ar daith i trafod y materion ffyrdd canlyonl: 1. Cerrig gwyn a pyst ar ymyl ffordd Pandy, 2. Ffordd yn disgyn islaw Lluest. 3. Draen wrth yr Hen Gapel. 4. Cyflwr y ffordd pen draw Pandy/Tafolog. 5. Gwreiddau ar ochr y ffodd wrth Penfilltir, Bont a 6. Cyflwr ffordd Cwmcarnedd. Ers hyny, mae G Mitchell wedi hefyd cwrdd a Aled Jones o Powys i ddangos y materion iddo fo. Mae'r draen wrth yr Hen Gapel yn flaenoriaeth.
- Ffordd yn disgyn wrth Craig yr Henffordd – Dim diweddariad

**Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)**

**Gohebiaeth**

- Rhaglen Mwyngloddiau Metel gan Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyflwynwyd poster ynglyn a digwyddiad galw heibio ym Mhenffordd-Las ar y 13 o Fawrth rhwng 12-7.00yh

**Cynllunio**

- 24/0062/FUL | Erection and operation of a temporary meteorological mast for an approximate 36-month period | Land 3800 Metres West Of Staylittle Staylittle Llanbrynmair Powys - Yn cefnogi: E Lewis, B Jones, G Davies, P Jones, I Edwards ac E Davies. Yn erbyn: D Jones. Yn ymatal: S Evans a F Cauley. Cytunwyd i gwahodd y grŵp ymgyrch o Dylife i gwneud cyflwyniad am eu pryderon yn y cyfarfod nesaf. S Reast i cadw ffeil o lythyron ac adroddiadau ynglyn a'r cais yma
- 24/0041/FUL, One Planet Development to include a residential unit, processing/packing unit, 3 no. polytunnels, 2 no. agricultural shelters, 2 no. yurts for holiday use, 2 no. poultry sheds, 2 no. micro wind turbines, 5 no. water tanks, fuel tank, log store, cold store, beehive, compost bay, vegetables beds, reed beds, erection of footbridge, access tracks and all associated works (part retrospective), Land At Gardd Afon Tafolwern Llanbrynmair Powys SY19 7DT - Gwrthwynebwyd

**Cyfriflen a balans ariannol**

Ar gael ar 25/02/24

| | |
|---|---|
| Cyfrif Cyfredol | £23,837.70 |
| Cyfrif Cadw | £2,912.99 |
| Cyfanswm | £26,750.70 |
| Sieciau heb eu cyflwyno | £100.00 |
| Balans ar gael | £26,650.70 |

**Ceisiadau a thaliadau ariannol**

| **Dyddiad cytunwyd** | **Eitem** | **Cyfanswm** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| 06/03/24 | Cyflog y Clerc | £368.00 | Cytynwyd |
| 06/03/24 | Treth ac NI ar cyflog y Clerc (Gorffenaf) | £92.00 | Cytynwyd |
| 06/03/24 | E.ON Next | £9.97 | Cytynwyd |
| 06/03/24 | Arfon Hughes - | £130.00 | Cytynwyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau cyfieithu | | |
| 06/03/24 | Hafren Dyfrdwy | £1512.11 | Cyfrif ar stop tra fydd ymholiadau ar y gweill |
| 06/03/24 | Bryn Jones – Gosod goleuadau'r coeden Nadolig | £55.00 | Cytynwyd |
| 06/03/24 | Office Express | £32.34 | Cytynwyd |
| 07/02/24 | Archwilio Cymru – Awdit 2015/16 | £1858.25 | Angen mwy o trafodaeth |

**Unrhyw fater arall**

**Eitemau ar gyfer yr agenda nesa**

- F Cauley – Llwybrau cyhoeddus
- E Lewis – Peipen nwy yn croesu ffordd Brynaire
- G Davies – Uchder Pont Soar
- R Ashton – Coed ar y gornel ar ôl Plas Pennant yn gwyro i'r ffordd

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher 3ydd Ebrill 2024**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 1af Mai 2024 yn cynnwys y cyfarfod blynyddol**

Sarah Reast
Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair